

Fel cyd berchnnog y tir ble mae pyst 109 a 110 (A543 viewpont 11) wedi eu lleoli hoffwn wneud y pwyntiau canlynol.

Maer datblygiad yn croesi yr A543 mewn man hynnod agored ble bydd y pyst yn hynod weladwy wrth ddreifio ar yr A543 o Ddinbych i Groes ac i'r cyfeiriad arall. Mae rhai miloedd yn defnyddio'r ffordd yma yn wythnosol ac bydd y datblygiad yn anharddu'r olygfa yn union ble mae golygfa pell gyrhaeddol i bedwar cyfeiriad. Maer ffordd yn cael ei ystyried gan nifer o fudiadau fe lun or 10 ffordd gorau ym Mhrydain yn rhannol am y golygfeydd.

Wrth drafeilio tuag at Dinbych bydd yn anharddu golygfa o Ardal o Harddwch Naturiol Arbening Bryniau Clwyd, mae un melin gwynt I weld ar dir cyfagos yn barod a bydd y pyst a ceblau yn ychwanegu at creu golwg mwy diwydiannol i'r ardal. Maer ffermydd gwynt I weld yn y pellter or cyfeiriad arall ag unwaith eto bydd hyn yn ychwanegu at olygfa fwy diwydiannol. Maer pyst wedi eu gosod wrth arwyddion Sir Ddinbych a Sir Conwy ac yn hysbyseb gwael I'r ddwy sir Gan fod y pyst wedi eu lleoli yn agos I ben bryn bychan ar dir agored maer pyst yn hynnod weladwy.

I geisio lliniaru rhywfaint o effaith gweladwy y datblygiad maer cynlluniau yn nodi plannu coed yn y gwrychoedd ar ochr yr A543 a caeau cyfagos. Bydd y coed hyn yn creu y problemau canlynol-

- Peryglon wrth I draffig geisio ymuno ar A543 o fynediadau presenol fydd ddim yn gallu gweld oherwydd y coed.
- Maer coed i'w planu ble mae nifer o ddamweiniau a bobl yn dibynnu ar allu gweld yn bell ymalen cyn pasio, ni fydd posib gweld yn glir wedi i'r coed gael eu planu.
- Mae problem o lifogydd ar y ffordd yn y fan yma a bydd dail y coed yn ychwanegu at y broblem o gael dreaniau sydd yn cael trafferth delio a llif yn barod.
- Wrth blannu coed ar ochr y ffordd ni fydd bobl yn gallu gweld y golygfeydd or ffordd felly yn amaharu ar fwynhad bobl or ffordd.

Fel tirlfeddianwyr nid ydym wedi gweld unrhyw waith sydd yn dangos effaith costau cadw y coed hyn all fod yn rhai miloedd ar ochr ffyrdd nag ychwaith ymchwil i'r effaith negyddol ar dir amaethyddol wrth blannu coed.

In 2014 dywedodd SP Manweb mewn adroddiad ' a number of studies are underway to see if a lighter single wood pole design would be suitable. SP Manweb consider there to be no material difference between the two designs and present the double wood pole through the consultation as a 'worse case' illustration. SP Manweb are not consulting on the wood pole design, this will be chosen on technical feasibility' Hoffwn wybod yn dilyn penderfyniad un cwmni gwynt I beidio mynd ymlaen a yw SP Manweb wedi ystyried hyn a beth oedd canlyniad yr 'studies' gymerodd lle.

Yr eiddoch yn gywir
Iwan Wynne Jones

